OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 2112 (Cy.170)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Coleg y Drindod, Caerfyrddin (Sefydliadau Dynodedig mewn Addysg Uwch) (Cymru) 2007

Wedi'i wneud - -	*23 Gorffennaf 2007*
Wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaeshol - -	*24 Gorffennaf 2007*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 129(1) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Coleg y Drindod, Caerfyrddin (Sefydliadau Dynodedig mewn Addysg Uwch) (Cymru) 2007 a daw i rym ar 1 Medi 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dynodiad

2. Dynodir Coleg y Drindod, Caerfyrddin, ac yntau'n sefydliad addysg o'r math a ddisgrifir yn is-adran (2) o adran 129 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, yn sefydliad at ddiben yr adran honno.

Jane E. Hutt
Y Gweinidog dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc,
un o Weinidogion Cymru

23 Gorffennaf 2007

(**1**) 1988 p.40.
(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, (OS 1999/672) a pharagraff 30(1) a (2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.